# Ysgol Mynydd Bychan

Ysgol Mynydd Bychan

O'r fesen derwen a dyf

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol

## 2022 – 2026

Pennaeth – S. Evans

Cadeirydd y Corff Llywodraethol – Jennifer Williams 19/10/22

Dyddiad – 19/10/22

## Cynnwys ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS)


| | |
|---|---|
| Ein hysgol | 3 |
| Nodau | 3 |
| Amcanion a Chynlluniau Gweithredu | 4 |
| Cwmpas | 4 |
| Datganiad Cryno ar Gydraddoldeb | 4 |
| Cyfrifoldebau | 5 |
| Casglu Gwybodaeth ac Ymgysylltu | 6 |
| Cyhoeddi ac adrodd | 7 |
| Monitro ac Adolygu | 7 |
| Amcanion Cydraddoldeb Ysgol a Chynllun Gweithredu | 8 |

**Datganiad Polisi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

## 1.Ein Hysgol

Mae ein hysgol yn ysgol gynradd, ganol dinas. Mae gennym wyth dosbarth, o'r Feithrin i Flwyddyn 6, gydag uchafswm o 30 disgybl ym mhob blwyddyn gyda 32 yn y Feithrin. Ym mis Medi 2023, mae 237 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n cynnwys disgyblion Meithrin rhan amser.

Mae 54% ferched a 46% yn fechgyn. Prydiau am ddim = 3.5%.

Mae ganddi 15 o staff addysgu a 18 staff nad ydynt yn addysgu.

Daw disgyblion o amrywiaeth o gefndiroedd ethnig, gan gynnwys: Asaidd arall– 0.4%, Cefndir cymysg arall– 0.4%, Turkish / Turkish Cypriot– 0.4%, Prydeinig Gwyn– 85.2%, Ewropeaidd Gwyn arall– 3%, Gwyn ac Asiaidd– 2.5%, Gwyn arall- 1.6%, Caribiaidd Gwyn a Du– 2.1%, Caribiaidd– 0.4%, Iranaidd– 0.4%, Lladin De Canol America– 0.4%, Asiaidd a Tsieiniaidd– 0.8%, Gwyn ac unrhyw grwp ethnig arall– 0.8%, Asiaidd ac unrhyw grwp ethnig arall – 0.8%, Pacistani – 0.8%

Er bod 35% o'n disgyblion yn dod o gartrefi lle mae Cristnogaeth yn ffydd ymarferol, mae 53% o deuluoedd yn datgan nad oes ganddyn nhw unrhyw gredoau crefyddol. Mae 3% o'r disgyblion yn Fwslimiaid, 0.4% yn Iddewig a 1.7% yn cofnodi eu hunain fel 'arall'. Ni roddodd 6.9% o deuluoedd wybodaeth am eu ffydd.

Mae 10.1% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith y cartref, 0.4% yn siarad Cymraeg yn bennaf tra bod 84% yn nodi eu bod yn siarad Saesneg / Cymraeg adref. Mae niferoedd llai yn siarad Hindko (0.8%), Azeri (0.4%), Twrceg (0.4%), Urdu (0.4%), Tsieineaidd (0.4%), arall (0.4%) ac Latvian (0.4%). Ni roddodd 2.5% o deuluoedd wybodaeth am yr iaith a siaredir adref.

Mae gennym un disgybl anabl ac un sy'n mynychu'r Uned Drochi Iaith.

Mae 91% o staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu yn Wyn Prydeinig. Mae 73% o'n staff yn fenywod ac mae 27% o'n staff yn ddynion. Mae 76% o'n staff yn siarad Cymraeg.

Rydym yn cydymffurfio â Pholisi a Gweithdrefn Recriwtio Ar-lein yr Awdurdod Lleol sydd bellach yn monitro Cyfeiriadedd Rhywiol staff ond nid yw eto'n darparu gwybodaeth ddigonol i lunio darlun o'n hysgol. Rydym yn ymwybodol bod gennym rieni ac aelodau o staff mewn perthnasoedd o'r un rhyw, fodd bynnag nid ydym yn monitro hyn yn gadarn.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth cyfartal ar bob un o'r bobl hyn, eu ffydd, diwylliannau, cymunedau ac ieithoedd.

## 2. Amcanion

Rydym yn cydnabod ac yn dathlu'r ffaith bod cymdeithas Cymru a Phrydain yn cynnwys pobl o gefndiroedd a chanddynt brofiadau bywyd gwahanol. Mae'n bwysig i bob disgybl fod wedi'i baratoi i fyw mewn cymdeithas o'r fath. Diben ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) yw cyflawni dyletswyddau i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl a chanddynt 'nodweddion a ddiogelir' a mabwysiadu tegwch a chydraddoldeb wrth wraidd cymuned ein hysgol ac ym mhob agwedd ar gynlluniau a pholisïau ein hysgol.

Drwy'r gweithgareddau gwella cydraddoldeb a thasgau a gynllunnir yn strategol yn y ddogfen hon, ein nodau yw:

1. Dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio
2. Gwella cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a ddiogelir berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu
3. Meithrin perthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a ddiogelir berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu

Rydym wedi selio ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol ar flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o fewn Addysg yn ogystal ag adborth o ymgysylltu â chymuned ein hysgol a data ein hysgol.

## 3. Ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol

Ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol dewis yw

1. Lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad a phresenoldeb ymhlith disgyblion o grwpiau a ddiogelir
2. Lleihau digwyddiadau a bwlio yn yr ysgol sy'n seiliedig ar hunaniaeth
3. Datblygu ansawdd a defnydd Monitro Cydraddoldeb a Chasglu Data
4. Codi ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith Disgyblion, Staff a Llywodraethwyr

## 4. Cwmpas

Mae'r polisi'n berthnasol i'r holl staff llawn amser, rhan amser, staff sy'n rhannu swydd, yn gweithio'n barhaol neu dros dro a staff cyflenwi. Mae'n berthnasol i bob disgybl, rhiant, defnyddiwr gwasanaeth ac ymwelydd i'r ysgol yn unol â deddfwriaeth Cydraddoldeb a chyfrifoldebau cyfreithiol yr ysgol i hyrwyddo cydraddoldeb mewn cyflogaeth, addysg a mynediad i wasanaethau.

## 5. Datganiad Cryno ar Gydraddoldeb

Yn Ysgol Mynydd Bychan ein nod yw darparu amgylchedd braf, gofalgar lle gall pob plentyn deimlo'n hyderus ac y gall ddysgu. Rydym am feithrin amgylchedd gyda chyd-barch a chymorth rhwng yr holl staff, disgyblion, rhieni a gofalwyr a'r gymuned yn ehangach.

Mae ein hysgol yn ymrwymedig i ddileu unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon ar sail Hil, Rhywedd, Trawsrywedd, Crefydd neu Gred, Anabledd neu Dueddfryd Rhywiol, Beichiogrwydd neu Briodas neu Bartneriaeth Sifil drwy greu amgylchedd lle gall pobl unigolyn, waeth beth fo'i allu neu gefndir, gymryd rhan a'i fod yn cael ei werthfawrogi'n llawn fel aelod o gymuned yr ysgol. Drwy wrthwynebu pob math o wahaniaethu a rhagfarn rydym yn hyrwyddo agwedd gadarnhaol tuag at wahaniaethau ac yn disgwyl i bawb barchu pobl o bob cefndir.

Mae ffyrdd ystrydebol o feddwl yn deillio o anwybodaeth a gallant arwain at hunan-barch isel a dyheadau cyfyngedig. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi ac yn annog cynnwys pawb o bob rhan o'r gymuned leol a thrwy hyn yn bwriadu cyfleu delweddau cadarnhaol sy'n herio meddwl yn ystrydebol.

Ni oddefir unrhyw ieithwedd neu ymddygiad sy'n gwahaniaethu ar sail hil, rhyw, tueddfryd rhywiol, anabledd neu a all fod yn niweidiol i unrhyw grŵp, a chaiff ei herio a'i fonitro. Caiff gwybodaeth sy'n deillio o waith monitro ei defnyddio i lunio strategaethau ysgol gyfan i fynd i'r afael â digwyddiadau. Caiff gwybodaeth am ddigwyddiadau a bwlio sy'n ymwneud â hunaniaeth ei rhannu'n rheolaidd â'r AALl i helpu â chamau i fynd i'r afael â throseddau atgasedd ledled y Ddinas.

## 6. Cyfrifoldebau

### Arwain a Rheoli

**Ymrwymiad**
Bydd Corff Llywodraethu a rheolwyr yr ysgol yn gweithio gyda'i holl bartneriaid i fwrw ati i hyrwyddo cyfle cyfartal, meithrin perthnasau da a mynd i'r afael â gwahaniaethu anghyfreithlon. Byddant hefyd yn annog cymorth ac yn galluogi'r holl ddisgyblion a staff o'r holl nodweddion a ddiogelir i gyrraedd y safonau uchaf posibl fel y dynodir yn Natganiad Gweledigaeth yr ysgol a'r Polisi Cydraddoldeb hwn.

**Corff Llywodraethu**
Y Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â Deddfwriaeth Cydraddoldeb ac yn cyflawni ei chyfrifoldebau cyfreithiol. Gyda chymorth y Pennaeth bydd y Corff Llywodraethu yn sicrhau bod y polisi a'i weithdrefnau a strategaethau cysylltiedig yn cael eu rhoi ar waith. Mae'r Corff Llywodraethu yn cynnwys materion cydraddoldeb fel eitem reolaidd ar agenda cyfarfodydd y Corff Llywodraethu ac mae llywodraethwr a chanddo gyfrifoldeb am Gyfle Cyfartal, sef Mr Paul Jeffries.

**Pennaeth**
Mae'r Pennaeth yn gyfrifol am y canlynol:

- Sicrhau bod y Polisi Cydraddoldeb ar gael i bawb, ynghyd â pholisïau cysylltiedig fel y "Polisi Gwrth-fwlio" neu'r "Polisi Aflonyddu" a bod llywodraethwyr, staff, disgyblion, rhieni a gwarcheidwaid yn ymwybodol ohono.
- Sicrhau bod y polisi a'i weithdrefnau'n cael eu dilyn.
- Cynhyrchu gwybodaeth reolaidd i staff a llywodraethwyr am sut mae'r polisi'n gweithio, a darparu hyfforddiant iddynt ar y polisi os oes angen.
- Sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u bod yn cael hyfforddiant a chymorth i'w cyflawni.
- Cymryd camau priodol mewn achosion o aflonyddu neu wahaniaethu.
- Sicrhau bod y Polisi Cydraddoldeb yn cael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd.

Y person a enwir sy'n gyfrifol am ddelio ag achosion a adroddir o wahaniaethu anghyfreithlon yw Miss Siân Evans. Mae staff a disgyblion yn gwybod pwy yw'r person a enwir. Mae'r person a enwir yn sicrhau bod yr holl achosion a adroddir yn cael eu cofnodi yn y Gronfa Ddata Digwyddiadau a Monitro Cydraddoldeb, a ddadansoddir o fewn yr ysgol a'i hanfon i'r AALI bob tymor.

Y Cydlynydd Cydraddoldeb yw Mr Marc Jon Williams. Mae'r Cydlynydd Cydraddoldeb yn sicrhau bod yr ysgol yn adolygu ac yn gwerthuso'r holl bolisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â Chydraddoldeb yn rheolaidd, gan arwain at bennu targedau sy'n mynd i'r afael ag agweddau ar anghydraddoldeb neu anfantais ym mhob un o weithgareddau'r ysgol.

**Mae pob aelod o staff** yn gyfrifol am y canlynol:

- Delio ag achosion o wahaniaethu anghyfreithlon a bwlio
- Gallu adnabod â thuedd ac ystrydebau a mynd i'r afael â nhw
- Hyrwyddo cydraddoldeb a pherthnasau da rhwng pob grŵp
- Gwybod y wybodaeth ddiweddaraf am gyfraith gwahaniaethu, a manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant.
- Ymdrechu i ddarparu delweddau a chynlluniau gwersi sy'n dangos darlun cadarnhaol ac yn cynnwys pobl o'r nodweddion a ddiogelir.

## 7. Casglu Gwybodaeth ac Ymgysylltu

Mae'r broses o gasglu gwybodaeth yn hollbwysig i'n cefnogi i benderfynu pa gamau i'w cymryd i wella cydraddoldeb a dileu gwahaniaethu yng nghymuned yr ysgol. Yna bydd y wybodaeth yn ein helpu i adolygu ein perfformiad, felly mae angen iddi fod yn ddigon manwl i'n galluogi i fesur i

ba raddau rydym yn cyflawni ar ddyletswyddau cydraddoldeb. Mae'r wybodaeth hefyd yn ein helpu i lunio asesiadau effaith cywir a nodi pa rai o amcanion yr ysgol a gyflawnwyd a beth sydd angen ei wneud yn well.

Mae ymgysylltu'n seiliedig ar wybodaeth a geir am gynrychiolaeth ymhlith grwpiau gwahanol. Ein nod yw gwneud hyn i'r graddau mwyaf posibl. Y rheswm pam bod y cynnydd hwn yn bwysig i ni yw deall ystod lawn anghenion cymuned yr ysgol.

**8. Cyhoeddi ac adrodd**

Mae'r ysgol yn cyhoeddi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar ein gwefan. Mae ar gael mewn print bras a fformatau eraill ar gais. Mae prosbectws yr ysgol yn cynnwys cyfeiriad at y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r gwerthoedd sy'n sail iddo.

Byddwn yn adrodd ac yn cyhoeddi'r cynnydd a wnaed ar y cynlluniau gweithredu bob blwyddyn, yn ogystal ag effaith y Cynllun ei hun ar ethos yr ysgol ac arfer oddi mewn iddi. Cyflawnir hyn fel rhan o Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr.

**9. Monitro ac Adrodd**

Byddwn yn ail-adolygu ac yn dadansoddi'r wybodaeth a'r data a ddefnyddir i nodi blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (e.e. data cyrhaeddiad, ymgysylltu â rhanddeiliaid).

Byddwn yn defnyddio Asesiadau o Effaith Cydraddoldeb i sicrhau bod y camau a gymerir yn cael effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion a ddiogelir, bod hyrwyddo cydraddoldeb wrth wraidd gwaith cynllunio'r ysgol a bod gwahaniaethu'n cael ei ddileu'n effeithiol.

Yn seiliedig ar yr uchod byddwn yn adolygu'r Cynllun ac yn ei ailgyhoeddi yn ôl yr angen, ond o leiaf bob blwyddyn gydag adolygiad o leiaf bob pedair blynedd.

# 10. Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol

# 2022-26

**Ysgol Mynydd Bychan**

**Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2022 – 2026**

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth 1 :** Sicrhau cydraddoldeb o ran cyflawniadau bechgyn a merched ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac ar ddiwedd CA2. | **Ffynhonnell y flaenoriaeth:** CDY 2022 - 2023 |
| **Targedau:** | |

| **Effaith / Meini Prawf Llwyddiant:** Llai o fwlch cyrhaeddiad rhwng grwpiau o ddisgyblion | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Tasgiau wedi'u cynllunio'n strategol:**<br>• Gwella safonau darllen merched Bl 5 a 6<br>• Gwella safonau darllen Bechgyn Bl 3 a 4<br>• Gwella safonau rhif gweithdrefnol merched Bl 4, 5 a 6 | | **Unigolyn arweiniol / unigolyn sy'n gysylltiedig.** | **Amserlen** | |
| | | | **Dechrau** | **Gorffen** |
| • Gweithredu ar unrhyw batrymau sy'n ymddangos sy'n golygu cefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion penodol.<br>• Edrych ar ddata canlyniadau diwedd cyfnod o ran rhyw, grwp lleiafrif ethnig, rhywiau.<br>• Cynllunio a gweithredu gweithgareddau gweithdrefnol a fydd yn helpu codi safonau rhai (<20%) disgyblion ym Ml 4, 5 a 6.<br>• Cynllunio a gweithredu cyfleoedd darllen i rai (<20%) o fechgyn Bl 3 a 4 a merched Bl 5 as 6<br>• Monitro cynlluniau byr dymor<br>• Monitro gwersi<br>• Craffu ar lyfrau a thrafod gyda disgyblion | | WW<br>Athrawon a ChDD<br><br>Cydlynydd Cynnydd<br><br>Athrawon<br><br>Athrawon<br><br>UDRh | Medi 2022<br><br>Yn hanner tymhorol<br><br>Medi 2022 | Medi 2023<br><br>Parhad<br><br>Medi 2026 |

**Ysgol Mynydd Bychan** **Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2022 - 2026**

| **Blaenoriaeth 2 :** Addysgu'r staff, disgyblion ac aelodau'r Corff Llywodraethol | **Ffynhonnell y flaenoriaeth:** Deddf Cydraddoldeb 2010 |
|---|---|
| **Targedau:** | |
| 1. Mae staff a llywodraethwyr yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb | |

2. Mae hyfforddiant staff a llywodraethwyr yn cyfuno hyfforddiant sylfaenol ar gyfer yr holl staff gyda hyfforddiant arbenigol ar gyfer staff dethol yn dibynnu ar blaenoriaethau a materion neu dueddiadau cydraddoldeb sy'n dod i'r amlwg
4. Mae'r cwricwlwm ym mhob grŵp blwyddyn yn dystiolaeth o addysgu cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'i gynllunio ar draws ystod o bynciau, gan gwmpasu yr holl nodweddion gwarchodedig.

**Effaith / Meini Prawf Llwyddiant:**

| **Tasgiau wedi'u cynllunio'n strategol:** | | **Unigolyn arweiniol / unigolyn sy'n gysylltiedig.** | **Amserlen** | |
|---|---|---|---|---|
| • Cynllunio a gweithredu gweithgareddau amlddiwylliannol yn ystod y flwyddyn academaidd ym mhob dosbarth, yn seiliedig ar ddysgu am ddiwylliannau eraill a'u dathlu.<br>• Bydd yr ysgol yn cymryd rhan mewn gwasanaeth Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth a gweithgareddau dosbarth i ddysgu am hiliaeth a mewnfudo.<br>• Dewisir testunau addysgu sy'n herio stereoteipiau ac yn hyrwyddo rolau anhraddodiadol. Er enghraifft "Doll Williams", "Brenin a Brenin"<br>• Bydd yr ysgol yn gwahodd modelau rôl ysbrydoledig sy'n gweithio mewn rolau anhraddodiadol i siarad yn ystod y flwyddyn academaidd e.e. wythnos Busnes a Menter, i herio stereoteipiau rhyw.<br>• Bydd yr ysgol yn cynllunio ac yn gweithredu sesiynau Addysg Gorfforol sy'n cynnwys gemau Paralympaidd, gan seilio'r chwaraeon o amgylch y gweithgareddau hyn i gynnwys pêl-droed dall gan hybu dealltwriaeth o fywyd rhywun ag anabledd.<br>• Mae gan yr ysgol gysylltiadau ag Ysgol Uwchradd Plasmawr a bydd yn cysylltu â DIGON, sef y grŵp Cynhwysiant LHDT.<br>• Mae'r ysgol yn cynnal teithiau i fannau addoli lleol o ystod o ffydd.<br>• Bydd Blwyddyn 6 yn dangos ac yn trafod rhaglen ddogfen CBBC "I am Leo" am berson ifanc sy'n cael ailbennu rhywedd.<br>• Mae'r ysgol yn sicrhau bod adnoddau a deunyddiau hyrwyddo yn gynhwysol ac yn eu defnyddio fel sail i drafodaethau sy'n briodol i'r oedran. | | Athrawon<br><br>Cyngor Ysgol<br>MJ<br><br>Staff gyfan<br><br>Athrawon<br><br>Athrawon<br><br>UDRh<br><br>Athrawon<br><br>TR<br><br>UDRh | Medi 2022 – Medi 2026<br><br>Chwefror 2022 yn flynyddol<br><br>Medi 2022 – Medi 2026<br><br>Tymor yr Haf yn flynyddol<br><br>Tymor yr Haf yn flynyddol<br><br>Tymor yr Haf yn flynyddol<br><br>Medi 2022 – Medi 2026 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • Bydd ystod o wahanol Grefyddau a Chredoau yn cael eu haddysgu drwy'r cwricwlwm Addysg Grefyddol. Ceisir siaradwyr o Gredoau nad ydynt yn cael eu cynrychioli yn y cwricwlwm Addysg Grefyddol e.e. Dyneiddwyr, Anffyddwyr<br>• Mae'r ysgol yn hyrwyddo perthynas dda rhwng pobl hŷn ac iau trwy ymweliadau côr yr ysgol â Chartref Pobl Hŷn lleol, a gwahodd neiniau a theidiau i ymweld â'r ysgol yn rheolaidd.<br>• Bydd yr ysgol yn nodi gwahanol wyliau a chrefyddau Ffydd gyda gweithgareddau dosbarth atodol i ddatblygu dealltwriaeth ar lefelau priodol i oedran.<br>• Bydd yr ysgol yn defnyddio wythnos gwrth-fwlio i ddysgu am dderbyn eraill a sut rydym i gyd yr un peth. | | UDRh<br>VT<br><br>Athrawon<br>UDRh<br><br>Staff gyfan<br><br>Staff gyfan | Medi 2022 – Medi 2026<br><br>Medi 2022 – Medi 2026<br><br>Medi 2022 – Medi 2026 | |

**Ysgol Mynydd Bychan** **Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2022 - 2026**

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth 3 :** Datblygu ansawdd a'r defnydd o'n trefniadau monitro cydraddoldeb a chasglu data cydraddoldeb | **Ffynhonnell y flaenoriaeth:** |

| Targedau: | | | |
|---|---|---|---|
| 1. Diwygio ein ffurflen gofrestru er mwyn casglu gwybodaeth ddefnyddiol am gydraddoldeb i rieni yn well<br>2. Cynnal ymarfer monitro cydraddoldeb ôl-weithredol staff<br>3. Sicrhau bod Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr ysgol ar gael i bawb sydd â diddordeb, ac yn cael ei lanlwytho i wefan yr ysgol.<br>4. Adolygu monitro cydraddoldeb ar y cam recriwtio a dethol staff a llywodraethwyr<br>5. Ehangu ein monitro o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â hil i gofnodi ac adrodd ar ystod ehangach o fwlio gan gynnwys bwlio gwrth-anabl, homoffobig a thrawsffobig, rhywiaethol a bwlio ar sail crefydd neu gred.<br>6. Corff llywodraethu i adrodd bob tymor ar bresenoldeb a gwaharddiadau yn ôl nodweddion gwarchodedig<br>7. Adnabod bylchau mewn gwybodaeth cydraddoldeb ar hyn o bryd<br>8. Asesu Effaith Cydraddoldeb yr holl bolisïau sydd i'w hadolygu yn ystod (cylch oes y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn) | | | |
| **Effaith / Meini Prawf Llwyddiant:** | | | |
| | | **Unigolyn arweiniol / unigolyn sy'n gysylltiedig.** | **Amserlen** |
| • Gweithredu System Monitro Digwyddiadau a Bwlio Seiliedig ar Hunaniaeth y sir dechrau dychweliadau tymhorol i'r Sir/ 'Fy Mhryder'<br>• Nodi'r polisïau blaenoriaeth ar gyfer Asesu Effaith Cydraddoldeb o restr eleni o bolisïau sydd i'w hadolygu a dechrau cynnal AEC.<br>• Addasu ffurflen gofrestru'r sir i ddechrau casglu Gwybodaeth Cydraddoldeb i Rieni<br>• Cynnal ymarferiad ôl-weithredol i ddiweddaru'r wybodaeth cydraddoldeb a gedwir ar staff ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig | | MJW<br>Pennaeth<br>UDRh | Medi 2022 – Medi 2026 |